

Dangosyddion Perfformiad Allweddol Ardaloedd Menter - Adroddiad Blynyddol Ebrill 2017 - Mawrth 2018

Diben

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y rhaglen Ardaloedd Menter ar gyfer y flwyddyn ariannol rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018.

Cyffredinol

1.1 Mae ein dangosyddion cyhoeddedig yn ein galluogi i fonitro cynnydd ar gyfer pob un o'r 8 Ardal Fenter yn y meysydd allweddol canlynol:

- Y Swyddi a gefnogir
- Buddsoddiad
- Tir a adferwyd ac a ddarparwyd ar gyfer ei ddatblygu
- Mentrau a gafodd gefnogaeth neu gymorth ariannol

1.2 Datblygwyd y dangosyddion mewn ymgynghoriad agos â Chadeiryddion Byrddau'r Ardaloedd Menter. Fodd bynnag, dylid cydnabod nad yw'r targedau ansoddol hyn yn cwmpasu nac yn mesur hyd a lled y cyflawniadau.

1.3 O ystyried bod pob Ardal Fenter yn wahanol, mae yna berygl o gymharu perfformiadau mewn Ardaloedd Menter; fodd bynnag, yr agenda hirdymor ym mhob un ohonynt yw cefnogi datblygiad economaidd a thwf busnes, swyddi newydd a diogelu swyddi cyfredol.

1.4 Er bod eu cyd-destun polisi a'u sefydlu yn perthyn i gyfnod cyn datblygu'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, mae pwyslais y Cynllun ar ddatblygu cryfderau rhanbarthau Cymru a gwaith yr Ardaloedd Menter i ysgogi datblygiad economaidd yn lleol yn cyd-fynd.

Cymhellion

2.1 Mae Ardaloedd Menter yn elwa ar amrywiaeth cystadleuol o gymhellion ariannol ac anariannol. Mae'r rhain yn cynnwys band eang cyflym iawn, cymorth ardrethi busnes, cymorth sgiliau, lwfansau cyfalaf uwch ac eiddo a seilwaith:

2.2 Band eang: Blaenoriaethwyd yr Ardaloedd Menter ar gyfer darpariaeth Band Eang Cyflym iawn, sydd wedi'i gyflwyno i bob Ardal. Ar hyn o bryd, mae 95.95% o adeiladau'r Ardaloedd Menter wedi'u galluogi.

2.3 Cymorth Ardrethi Busnes: Ers Hydref 2012, cynigiwyd £11 miliwn o gymorth ardrethi busnes i gannoedd o gwmnïau ledled yr Ardaloedd Menter.

2.4 Sgiliau: Mae pob Ardal Fenter yn elwa ar ein cynnig sgiliau Cymru gyfan ac rydym yn parhau i weithio i sicrhau bod y cynnig ar gyfer Ardaloedd Menter yn cyd-fynd â gofynion lleol, gyda chymorth pwrpasol yn cael ei gynnig fel y Rhaglen Sgiliau Hyblyg a'r Cynllun Prentisiaethau a Rennir yng Nglynebwy.

2.5 Lwfansau Cyfalaf Uwch: Mae Trysorlys EM wedi ymestyn y lwfansau tan 2020 (2024 yng Nglannau Port Talbot). Fe'u sicrhawyd mewn safleoedd dynodedig yn Ardaloedd Menter Glannau Dyfrdwy, Glynebwy, Dyfrffordd y Ddau Gleddau a Glannau Port Talbot. Mae gwaith

yn parhau i wella seilwaith y safleoedd sydd wedi'u dynodi i'w gwneud hyd yn oed yn fwy deniadol i fuddsoddwyr.

2.6 Eiddo a Seilwaith: Mae ymyriadau eraill mewn Ardaloedd Menter yn cynnwys datblygiadau seilwaith trafniadaeth i wella cysylltedd o fewn ac i'r Ardaloedd Menter, atebion tir ac eiddo pwrpasol, rhwydweithiau busnes, cymorth cadwyn gyflenwi arbenigol a threfniadau rheoli perthynas pwrpasol.

Uchafbwyntiau'r Cyflawni

3.1 Mae cyflymder y cyflawni wedi amrywio ar draws yr Ardaloedd Menter – mae hyn yn adlewyrchu'r gwahanol fannau cychwyn oedd gan bob Ardal a'u cyfleoedd a'u heriau unigryw. Mae rhai o'r Ardaloedd yn fwy parod am fuddsoddiad nag eraill, rhai yn gallu manteisio ar gyfleoedd cyfredol, tra bod eraill wedi bod yn canolbwyntio ar osod sylfeini i adeiladu arnynt ar gyfer sicrhau datblygiad economaidd a busnes yn yr hirdymor. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd pwysig ym mhob Ardal.

- 1,550 o swyddi wedi'u cynnal ar draws yr ardaloedd yn 2017/18, gyda bron i 50% yn swyddi newydd
- Dros 12,250 o swyddi wedi'u cynnal ar draws yr ardaloedd ers sefydlu'r rhaglen
- Buddsoddi £57.6 miliwn o arian y sector cyhoeddus er budd yr ardaloedd yn ystod 2017/18
- Dros £5.3 miliwn o gymorth uniongyrchol i fusnesau yn yr ardaloedd yn 2017/18

Output	Unit of Measure	Enterprize Zone								Total	Target
		Anglesey	Cardiff	Cardiff Airport & St Athan	Deeside	Ebbw Vale	Haven	Port Talbot	Snowdonia		
Jobs Supported	Number of Jobs (Full time equivalent)	18	596	9	190	59.5	586	92	0	1550.5	1400-1900
<small>This indicator is an aggregate of jobs created, jobs safeguarded and jobs assisted</small>											
Investment	Financial	£2,938,490	£5,351,723	£3,340,546	£4,649,596	£38,750,213	£3,231,883	£1,958,929	£241,394	£60,462,775.41	£30m - £50m
<small>This indicator is an aggregate of public and private sector capital and revenue funding on projects supported by Welsh Government</small>											
Land remediated and made available for development / M2 Floor space created or refurbished	Hectares	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<small>This indicator is an aggregate of land remediated and land made available for development / floor space created or refurbished</small>	m2	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0 - 9000
Enterprises financially supported and financially assisted	Number of Enterprises	23	33	22	82	38	67	114	2	381	100 - 120
<small>This indicator is an aggregate of enterprises that have received Welsh Government financial support or financial assistance</small>											

Ardal Fenter

Allbwn

Uned Fesur

Ynys Môn

Caerdydd

Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan

Glannau Dyfrdwy

Glynebwy

Y Ddau Gleddau

Port Talbot

Eryri

Cyfanswm Targed

Swyddi a Gynhaliwyd

Mae'r dangosydd hwn yn gyfanswm cyfanredol o'r swyddi a grëwyd, a ddiogelwyd ac a gynorthwywyd

Nifer y Swyddi (Cyfwerth ag amser llawn)

Buddsoddiad

Mae'r dangosydd hwn yn gyfanswm cyfanredol o gyllid cyfalaf a refeniw a wariwyd gan y sector cyhoeddus a phreifat ar brosiectau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru*

Ariannol

Tir a adferwyd a'i ddarparu ar gyfer datblygu / m² o ofod llawr a grëwyd neu a adnewyddwyd

Mae'r dangosydd hwn yn gyfanswm cyfanredol o'r tir a adferwyd a'i ddarparu ar gyfer datblygu / gofod llawr a grëwyd neu a adnewyddwyd

Hectarau

m²

Mentrau a gefnogwyd yn ariannol neu a gynorthwywyd yn ariannol

Mae'r dangosydd hwn yn gyfanswm cyfanredol o fentrau sydd wedi derbyn cefnogaeth neu gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru

Nifer y Mentrau

Manylion y buddsoddiad sector cyhoeddus ar draws yr holl Ardaloedd - 2017/2018

	£	Ffynhonnell
Cyfanswm	£52,134,924.60	Trafnidiaeth
	£5,329,976.81	Cymorth Busnes Uniongyrchol
	£212,874.00	Seilwaith
	£0.00	Eiddo
	£57,677,775.41	

Ardal Fenter Ynys Môn

3.2 Y weledigaeth ar gyfer Ardal Fenter Ynys Môn yw creu canolfan ragoriaeth a gydnabyddir yn rhyngwladol am gynhyrchu, arddangos a gwasanaethu ynni carbon isel. Mae Bwrdd Ardal Menter Ynys Môn wedi canolbwyntio ar 5 maes allweddol: sgiliau, datblygu eiddo; datblygu porthladdoedd; niwclear; a datblygu'r sector morol.

O'i sefydlu i fis Mawrth 2018, cynhaliwyd 1052 o swyddi gyda dros hanner ohonynt wedi'u creu o'r newydd o wahanol brosiectau. Yn ystod 2017/18, cynhaliwyd 18 o swyddi yn Ardal Fenter Ynys Môn.

3.3 Prif nodau'r Bwrdd oedd manteisio i'r eithaf ar y cyfle economaidd a gynigir gan orsaf ynni niwclear newydd gwerth £10 biliwn arfaethedig Wylfa Newydd, ond yn bwysicach fyth, nodi prosiectau/sectorau seilwaith mawr eraill sy'n hanfodol er mwyn sicrhau twf hirdymor cynaliadwy ar ôl adeiladu Wylfa Newydd.

Buddsoddiad Cyhoeddus 2017-2018		Ffynhonnell
	£2,077,000.00	Trafnidiaeth
	£598,196.47	Cymorth Busnes Uniongyrchol
	£13,294.00	Seilwaith
Cyfanswm	£2,688,490.47	

3.4 Sicrhawyd cyllid gan Gyngor Sir Ynys Môn, Grŵp Llandrillo Menai a'r Awdurdod Datgomiysynu Niwclear ar gyfer y prosiect gwerth £11 miliwn ar gyfer Ffordd Gyswllt newydd Llangefni. Ym mis Ionawr 2018, arweiniodd buddsoddiad pellach o £1.028 miliwn at allu cychwyn ar waith cyflawni rhan 3. Mae hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu dros £10.6 miliwn i'r cynllun. Mae'r Ffordd Gyswllt, sy'n cael ei chwblhau mewn pedair rhan, yn elfen allweddol o uwchgynllun Grŵp Llandrillo Menai i ddatblygu eu campws yn Llangefni i fod yn Gyfleuster Hyfforddiant Ynni a Pheirianneg a gydnabyddir yn rhyngwladol. Bydd y Ffordd Gyswllt yn bwysig i liniaru effaith traffig yng nghanol tref Llangefni hefyd ac mae wedi galluogi estyniad mawr ar gampws Llangefni Coleg Menai Grŵp Llandrillo Menai sy'n safle 40 erw.

3.5 Mae'r cyfleuster Profi Hydrolog Thermo posibl ar gyfer safle Parc Gwyddoniaeth Menai yn destun astudiaeth ddichonolrwydd ledled y DU ar hyn o bryd i weld ble yw'r lleoliad gorau. Os yw'r cais yn llwyddiannus bydd yn dod â swyddi niwclear cynaliadwy sy'n talu'n dda ym maes ymchwil a datblygu i'r Ardal ac yn dechrau datblygu clwstwr o arbenigedd niwclear a fydd yn denu mewnfuddsoddiad. Mae'n fwriad hefyd cynnal swyddi yn y sector morol sy'n datblygu ar yr Ynys gyda Phorthladd Caergybi yn dod yn lleoliad Gweithredu a Chynnal a Chadw ar gyfer y gweithgarwch hwn.

3.6 Mae blaenoriaeth y Bwrdd ar y sectorau niwclear a morol wedi helpu i greu'r sylfaen economaidd sydd wedi sicrhau a dylanwadu ar fuddsoddiad newydd sylweddol. Y prosiect morol cyntaf sydd wrthi'n datblygu cyfleuster gweithgynhyrchu ym Mhorthladd Caergybi yw'r datblygwr ynni morol o Sweden, Minesto, a sicrhaodd €5.1 miliwn o gyllid o Raglen Horizon 2020 yr UE i ddatblygu gwaith ynni llanw masnachol oddi ar arfordir Caergybi. Mae cyflawniadau eraill yn cynnwys y cyhoeddiad ym mis Medi 2017, y bydd £4.5 miliwn o gyllid gan yr UE a Llywodraeth Cymru'n cefnogi cynllun Morlais gwerth £5.6 miliwn Menter Môn a

fydd yn helpu i gyflymu gwaith datblygu a masnacheiddio technolegau ffrwd lanw niferus yn Ardal Arddangos Morlais ar Ynys Môn, gyda'r gweithgarwch morol i gyd o fewn yr Ardal.

3.7 Gwnaed cynnydd ar yr unedau diwydiannol llai gyda chyhoeddiad ym mis Gorffennaf 2017 fod £4 miliwn o gyllid yr UE i gael ei ddefnyddio i ddarparu dros 1,300m² o ofod swyddfa, diwydiannol ysgafn a lle storio i fusnesau ar hen safle Hyfforddiant Môn a thros 750m² o ofod swyddfa yng Nghanolfan Busnes Ynys Môn ym Mharc Busnes Bryn Cefni. Disgwylir y bydd gwaith yn dechrau'n fuan gyda'r unedau i fod yn barod i fusnesau ar ddechrau 2019. Mae'r Bwrdd wedi comisiynu darn o waith ar gyflenwad a galw ac yn bwriadu cynnal digwyddiad i ddenu datblygwyr eiddo i ddechrau chwilio am eiddo adeiladu hapfasnachol yn yr Ardal.

Maes Awyr Caerdydd ac Ardal Fenter Sain Tathan

3.8 Mae Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan yn amgylchedd unigryw ar gyfer busnesau Awyrofod yng Nghymru sy'n darparu'r amgylchedd a'r cymhellion sydd wedi bod yn hanfodol i ddenu busnesau o safon. Mae'r Ardal yn cynnwys 2 faes awyr mawr – Maes Awyr Caerdydd (515 erw) a Pharc Busnes Awyrofod Sain Tathan (1200) – yn ogystal â 'Safle Datblygu Porth' (200 erw) sy'n rhoi cyfle sylweddol am dwf yn y dyfodol.

Ers ei sefydlu hyd fis Mawrth 2018, cynhaliwyd 231 o swyddi. Yn ystod 2017/18, cynhaliwyd 9 o swyddi.

3.9 Mae'r Bwrdd wedi bod yn ddylanwadol hefyd o ran sicrhau buddsoddiad sylweddol mewn cynlluniau seilwaith ffyrdd sydd eisoes, ac a fydd, yn trawsnewid mynediad i safleoedd yr Ardal Fenter. Mae cyfanswm gwerth posibl cynlluniau Gileston Bends, 5 Mill Lanes a Ffordd Mynediad y Gogledd tua £44 miliwn.

Buddsoddiad Cyhoeddus 2017-2018		Ffynhonnell
	£3,132,324.60	Trafnidiaeth
	£190,000.00	Cymorth Busnes Uniongyrchol
	£18,221.00	Seilwaith
Cyfanswm	£3,340,545.60	

3.10 Ffocws diweddar allweddol y Bwrdd oedd sicrhau bod darpariaeth sgiliau ar waith a thrwy weithio gyda Choleg Caerdydd a'r Fro sefydlwyd rhaglen brentisiaeth newydd ar gyfer y sector awyrofod yn lleol sydd wedi denu dros 30 o lefydd prentisiaeth posibl yn ei blwyddyn gyntaf.

3.11 Mae Maes Awyr Caerdydd wedi datblygu'n sylweddol o dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru gyda chynnydd o 48% yn niferoedd y teithwyr dros y 3 blynedd diwethaf a llwybrau newydd yn cael eu sefydlu i'r Almaen, Iwerddon, yr Eidal, Ffrainc a Sbaen yn y cyfnod hwnnw.

3.12 Mae Aston Martin wedi dewis Parc Busnes Awyrofod Sain Tathan fel ei ail leoliad gweithgynhyrchu. Mae'r buddsoddiad hwn yn cyd-fynd â ffocws yr Ardal ar beirianeg, gweithgynhyrchu a deunyddiau arloesol a bydd yn cefnogi ac yn ategu'r ffocws o'r newydd ar asedau'r Maes Awyr a'r cyffiniau. Gallai tua 750 o swyddi gael eu creu pan fydd y cyfleuster ar waith yn llawn yn 2019.

3.13 Mae cydweithredu agos rhwng Llywodraeth Cymru, contractwr rheoli newydd y maes awyr, Serco Ltd, a'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi galluogi maes awyr Sain Tathan i agor saith diwrnod yr wythnos, sy'n gwella gallu marchnata'r Parc Busnes Awyrofod yn sylweddol.

Ardal Fenter Canol Caerdydd

3.14 Mae'r Ardal hon yn cynnwys 140 erw o ardal fusnes y Ddinas. Mae Bwrdd yr Ardal Fenter wedi gweithio'n agos iawn gyda Thîm Sector a Phanel Sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol Llywodraeth Cymru i ddarparu dull â ffocws o ddatblygu clwstwr cryf o fusnesau gwasanaethau ariannol a phroffesiynol o safon uchel yn yr Ardal ac yn rhanbarth ehangach Caerdydd.

Yn ystod 17/18, cynhaliwyd 596 o swyddi ledled yr ardal, sy'n golygu bod 2450 o swyddi wedi'u cynnal ers ei sefydlu.

3.15 Mae datblygiadau yn Ardal Fenter Canol Caerdydd yn helpu i gadarnhau safle Caerdydd fel lleoliad deniadol ar gyfer buddsoddiadau gwasanaethau ariannol. Mae swyddogion yn gweithredu blaenoriaethau strategol y Bwrdd i sicrhau bod swyddfeydd addas ar gael i ddenu tenantiaid allweddol. Mae hyn yn cynnwys parhau i ddatblygu swyddfeydd Gradd A sylweddol yn Sgwâr Callaghan a'r Capital Quarter ac adleoli llawer o fuddiannau busnes sylweddol fel y BBC a Banc Datblygu Cymru.

3.16 Mae'r buddsoddiad mewn trafndiaeth a nodir isod yn rhan o £33.9 miliwn o wariant ar Ffordd Gyswllt Bae y Dwyrain. Agorwyd y ffordd yn swyddogol ym mis Mehefin 2017 ac mae wedi gwella mynediad i'r Ardal a gwella cysylltedd ar draws rhanbarth ehangach y ddinas.

Buddsoddiad Cyhoeddus 2017-2018		Ffynhonnell
	£4,003,000.00	Trafnidiaeth
	£1,140,773.09	Cymorth Busnes Uniongyrchol
	£32,950.00	Seilwaith
Cyfanswm	£5,176,723.09	

Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy

3.19 Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy yw un o ardaloedd diwydiannol mwyaf llwyddiannus y DU ac mae ganddo sylfaen busnes sylweddol ar hyn o bryd sy'n cynnwys cyflogwyr mawr fel Airbus, Toyota a TATA Steel.

Yn ystod 17/18 mae 190 o swyddi wedi'u cynnal ar draws yr ardal, sy'n golygu bod 6,204 o swyddi wedi'u cynnal yn yr ardal ers ei sefydlu.

3.20 Mae yna botensial sylweddol am dwf pellach ac mae'r Bwrdd wedi sicrhau buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith hanfodol i sicrhau bod safle datblygu 222 erw 'Porth y Gogledd' yn barod ar gyfer prosiectau buddsoddi newydd. Trafodwyd cymhwysedd ar gyfer Lwfansau Cyfalaf Uwch gyda Llywodraeth y DU i'w wneud yn fwy deniadol i brosiectau mawr iawn.

3.21 Er mwyn cynnal gallu'r rhanbarth i gystadlu fel un o brif leoliadau'r DU ar gyfer gweithgynhyrchu, mae Bwrdd yr Ardal Fenter wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y seilwaith ar waith i gefnogi cwmnïau sy'n datblygu sgiliau o'r safon uchaf ac sydd â'r gallu ymchwil a datblygu gorau. Fel rhan o'r nod hwn, mae wedi gweithio'n galed i wneud y gwaith ymchwil i'r farchnad angenrheidiol ac i sicrhau'r cyllid ar gyfer datblygu Sefydliad Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Cymru. Cyhoeddwyd hyn fis Tachwedd diwethaf gyda chyfraniad dangosol o £20 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Mae £850,000 wedi'i wario ar y prosiect hwn hyd yma. Bydd y Sefydliad yn gweithredu fel endid unigol, wedi'i rannu rhwng "hyb" ymchwil a datblygu o'r radd flaenaf ym Mrychdyn a chyfleuster rhwydweithio, hyfforddi, datblygu busnes a chyngor yn agos at Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Buddsoddiad Cyhoeddus 2017-2018		Ffynhonnell
	£1,064,500.00	Trafnidiaeth
	£1,569,718.11	Cymorth Busnes Uniongyrchol
	£102,378.00	Seilwaith
Cyfanswm	£2,736,596.11	

- Nodwch nad yw'r gwariant hyd yn hyn ar y prosiect AMRI wedi'i gynnwys ond y bydd yn cael ei gynnwys o 2018/2019

Glynebwy

3.22 Mae Ardal Fenter Glynebwy yn cwmpasu 8 safle diwydiannol yn ardal Glynebwy yn cynnwys safle datblygu tir llwyd 33 erw Rhyd y Blew sy'n gymwys am Lwfansau Cyfalaf Uwch. Roedd gan y Bwrdd nodau clir, sef sicrhau bod ei safleoedd datblygu'n cael eu gwasanaethu'n llawn ac yn barod ar gyfer marchnata, gan ddatblygu'r sgiliau sydd ar gael yn yr ardal, yn enwedig yn y sector peirianneg a gweithio gyda thimau sector Llywodraeth Cymru i ddod â buddsoddiad newydd i'r Ardal.

3.23 Mae Cynllun Prentisiaethau a Rennir 'Aspire', sy'n canolbwyntio ar y sector gweithgynhyrchu yng Nglynebwy yn parhau i dyfu a datblygu'n llwyddiannus ac yn cael ei weld fel enghraifft o arfer gorau yn y maes hwn. Ar hyn o bryd, mae 21 o bobl ifanc yn y cohort hwn ac mae 52 o bobl wedi bod drwy'r rhaglen eisoes.

Yn ystod 17/18, cynhaliwyd 59.5 o swyddi ar draws yr ardal, sy'n golygu bod 449.5 o swyddi wedi'u cynnal ers ei sefydlu.

3.24 Mae'r seilwaith trafndiaeth yn bwysig iawn i'r Ardal ac mae rhan Brynmawr – Tredegar o ffordd ddeuol yr A465 wedi'i chwblhau, gan roi mynediad uniongyrchol i'r Ardal, diolch i fuddsoddiad o £158 miliwn. Yn ogystal, cwblhawyd y gwaith gwerth £11 miliwn o ymestyn y rheilffordd o Parkway i safle Gwaith Glynebwy.

Buddsoddiad Cyhoeddus 2017-2018		Ffynhonnell
	£37,800,000.00	Trafnidiaeth
	£943,558.49	Cymorth Busnes Uniongyrchol
	£6,655.00	Seilwaith
Cyfanswm	£38,750,213.49	

3.25 Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal trafodaethau gyda TVR Automotive ar y lleoliad mae'n ffafrio ar gyfer ei waith cydosod ceir yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar Ardal Fenter Glynebwy. Bwriedir cynhyrchu tua 2,000 o geir y flwyddyn, a bydd y cyfleuster yn creu tua 175 o swyddi newydd ac yn cael effaith gadarnhaol ar y gadwyn gyflenwi leol. Yn y cyfamser, mae TVR yn trafod gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i gael cyfleuster cynhyrchu ar raddfa fach fel bod y cwmni'n gallu cynnal treialon cyn-cynhyrchu a darparu hyfforddiant cychwynol i staff. Y nod yw agor y cyfleuster hwn yn 2018.

3.26 Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad o £100 miliwn dros 10 mlynedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu parc technoleg yng Nglynebwy gyda'r potensial i gynnal 1,500 o swyddi cyfwerth ag amser llawn dros yr un cyfnod. Mae gan y rhaglen, a elwir yn Tech Valleys erbyn hyn, uchelgais i weld cymoedd y De a Blaenau Gwent yn arbennig, yn ganolfan a gydnabyddir yn rhyngwladol am ddatblygu technolegau newydd, a chefnogi diwydiannau arloesol, yn enwedig yn y sector modur. Gan adeiladu ar y gwaith gwerthfawr mae Bwrdd Ardal Fenter Glynebwy wedi'i gyflawni hyd yn hyn, bydd y rhaglen yn cael ei darparu drwy bortffolio o brosiectau cysylltiedig a rhyng-ddibynnol fel technoleg batri a modur, gweithgarwch 5G a'r seilwaith sydd ei angen ar gyfer cerbydau awtomatig ac allyriadau isel.

Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau

3.27 Mae Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau'n cynnwys nifer o safleoedd yn Sir Benfro. Mae tua 20% o gyflenwadau ynni'r DU yn cael eu derbyn trwy Sir Benfro ac mae ardal graidd y Ddau Gleddau'n adlewyrchu pwysigrwydd y sector hwn. Mae'r Bwrdd wedi nodi pwysigrwydd twristiaeth a phrosesu bwyd ac yn blaenoriaethu'r meysydd hyn yn ychwanegol.

3.28 Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio ar 7 Rhagfyr 2017 ar gyfer gwaith cyd-gynhyrchu gwres a nwy gwerth £110 miliwn Valero yn ei safle yn yr Ardal a bydd yn galluogi Valero i allu bod yn hunangynhaliol ar ei gostau ynni yn y dyfodol. Mae Valero'n gyflogwr pwysig yn yr ardal, ac yn un o'r chwe busnes puro olaf yn y DU. Mae'r prosiect adeiladu dwy flynedd yn cynrychioli mewnfuddsoddiad mawr i Gymru yn y Sector Ynni ac yn diogelu cannoedd o swyddi yn yr Ardal.

Yn ystod 2017/18, cynhaliwyd 586 o swyddi ar draws yr ardal sy'n golygu bod 1,699.5 o swyddi wedi'u cynnal ers sefydlu'r ardal.

3.29 Mae buddsoddi mewn seilwaith ffyrdd wedi bod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd. Cwblhawyd gwelliannau i'r A477 yn Rhos-goch, rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Traws Ewropeaidd, ym mis Ebrill 2014, gan wella mynediad ffyrdd i ac o'r Ardal yn sylweddol. Mae Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru'n cynnwys ymrwymiad i ddatblygu cynigion ar gyfer creu cefnffordd ar yr A477 rhwng Doc Penfro a Johnston o'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae hyn yn cynnwys ystyried Pont Cleddau a chyhoeddiad cyllideb diweddar Llywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys ymrwymiad o £2 miliwn i ddileu'r tollau ar Bont Cleddau yn 2019-20.

Buddsoddiad Cyhoeddus 2017-2018		Ffynhonnell
	£2,500,000.00	Trafnidiaeth
	£454,573.46	Cymorth Busnes Uniongyrchol
	£10,310.00	Seilwaith
Cyfanswm	£2,964,883.46	

3.30 Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda phartneriaid allweddol, yn cynnwys Cyngor Sir Penfro, am y cynnig i greu Parc Bwyd yn Llwynhelyg, Hwlfordd. Mae Sir Benfro yn ardal o harddwch naturiol eithriadol ac mae amaethyddiaeth yn sector cryf iawn yno. Nod y parc bwyd arfaethedig yw creu swyddi a chadw 'gwerth ychwanegol' yn y rhanbarth.

3.31 Mae datblygiad parhaus yn y sector mordeithiau wedi arwain at fwy o ymwelwyr i'r de-orllewin gyda llongau mordaith yn angori ym Mhorthladd Aberdaugleddau, Penfro ac Abergwaun. Yn 2017, croesawodd Sir Benfro 6618 o deithwyr i'r porthladdoedd, gyda 31 o longau'n galw. Yn 2018, bydd 32 llong yn ymweld â Phorthladd Abergwaun yn unig yn cynnwys llongau mawr gyda niferoedd y teithwyr yn debygol o fod yn 11,000.

Ardal Fenter Glannau Port Talbot

3.32 Sefydlwyd ardal Fenter Glannau Port Talbot yn 2016 ar ôl i Tata Steel gyhoeddi ei fod yn gwerthu ei fusnes dur yn y DU. Nod Bwrdd yr Ardal Fenter yw helpu i annog manteisio ar gyfleoedd economaidd newydd a chefnogi busnesau cyfredol. Mae'r Ardal wedi'i lleoli o amgylch safleoedd cyflogaeth cyfredol a phosibl yn yr ardal sydd â chapasiti sylweddol i gefnogi buddsoddiad mewn busnesau eraill. Ar gyngor y Bwrdd, ehangwyd yr Ardal i gynnwys holl safle Tata Steel.

3.33 Mae Lwfansau Cyfalaf Uwch wedi'u sicrhau ar gyfer 3 safle penodol yn yr Ardal.

Yn ystod 2017/18, mae 92 o swyddi wedi'u creu yn yr ardal sy'n golygu bod 14.5 o swyddi wedi'u creu ers sefydlu'r ardal.

3.34 Mae Bwrdd yr Ardal Fenter wedi gweithio'n galed i ymgysylltu â busnesau yn yr Ardal ac i ddeall eu hanghenion. Fel enghraifft o hyn, cynhaliodd y Bwrdd archwiliad sgiliau o fusnesau yn yr Ardal Fenter a rhoddodd y canlyniadau dystiolaeth ar gyfer lansio rhaglen hyfforddiant sgiliau beilot, wedi ei noddi gan yr Adran Addysg a Sgiliau ac a gefnogodd 15 cwmni lleol gyda £135,000, a ariannodd hyd at 300 diwrnod o hyfforddiant.

3.35 Mae'r Bwrdd hefyd wedi bod yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe i gyflwyno rhaglen Arweinyddiaeth yr IoN (rhaglen hyfforddiant ar gyfer twf busnesau) wedi ei theilwra i ficrofusnesau a busnesau bach a chanolig yn yr Ardal Fenter. Bu'r Bwrdd yn cydweithio â Google hefyd i gynnal digwyddiad 'Google Digital Garage' a fynychwyd gan 150 o bobl o gwmnïau lleol.

Buddsoddiad Cyhoeddus 2017-2018		Ffynhonnell
	£1,453,100.00	Trafnidiaeth
	£296,762.74	Cymorth Busnes Uniongyrchol
	£29,066.00	Seilwaith
Cyfanswm	£1,778,928.74	

3.36 Bydd y Bwrdd yn parhau i edrych ar ffyrdd o weithio gyda diwydiant dur y DU ar ddatblygu'r gadwyn gyflenwi yn y dyfodol. Mae hefyd wedi nodi cyfleoedd posibl eraill o fewn y diwydiannau adeiladu a chreadigol a'r sectorau cyllid a gwasanaethau proffesiynol a bydd yn parhau i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol allweddol i ymchwilio i ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn ac ystyried pa seilwaith sydd ei angen i'w darparu.

Ardal Fenter Eryri

3.37 Mae Ardal Fenter Eryri'n cynnwys dau safle allweddol: safle cyn Atomfa Niwclear Trawsfynydd gyda'i seilwaith ynni a Chanolfan Awyrfod Eryri yn Llanbedr, sydd â'r capasiti i letya amrywiaeth o ddefnyddiau awyrfod. Mae yna gynnydd calonogol yn cael ei wneud i osod y sylfeini ar gyfer buddsoddiad hirdymor a swyddi cynaliadwy ym Meirionnydd.

Mae'r ardal wedi cynnal 20 o swyddi o'i sefydlu i fis Mawrth 2018.

3.38 Gan gydnabod nodweddion unigryw safle Trawsfynydd, nododd Bwrdd Cyngori Ardal Fenter Eryri botensial lleoli Adweithydd Modiwlwr Bach yn Nhrawsfynydd fel defnydd posibl i'r dyfodol gyda'r gallu i greu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy o werth ychwanegol. Mae'r Bwrdd hefyd wedi comisiynu nifer o astudiaethau ategol i gael dealltwriaeth fanylach o hyfywedd safle Trawsfynydd fel safle cynnal posibl ar gyfer Adweithydd Modiwlwr Bach newydd ac mae nawr yn cael ei ystyried yn eang fel y prif leoliad addas yn y DU ar gyfer adweithydd o'r fath gan ddarparwyr technoleg blaenllaw y diwydiant niwclear a'r sector yn ehangach.

3.39 Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi sefydlu Gallu Gweithredu Cychwynnol (10C) ar safle Llanbedr drwy fuddsoddi mewn seilwaith safle allweddol. Mae buddsoddiad ar y safle'n ganolog i lwyddiant datblygu ac integreiddio prosesau a gweithdrefnau'n llwyddiannus ar gyfer profion hedfan, gan arwain at Faes Awyr Llanbedr yn ailagor fel canolfan ragoriaeth ar gyfer systemau awtomataidd a gallu Amgylchedd Systemau Awyrennau Heb Griw Cymru yn cael ei ehangu. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a busnesau allweddol i ystyried sut gall safle Llanbedr gyfrannu a bod yn ased strategol yng Nghymru a'r DU ar gyfer profi a gwerthuso Systemau Heb Griw, technolegau sy'n datblygu a lleoliad Maes Rocedi.

Buddsoddiad Cyhoeddus 2017-2018		Ffynhonnell
	£105,000.00	Trafnidiaeth
	£136,394.45	Cymorth Busnes Uniongyrchol
	£0	Seilwaith
Cyfanswm	£241,394.45	

Atodiad 1 – Swyddi a gafodd eu creu, eu diogelu a'u cynorthwyo ym mhob Ardal ers eu sefydlu

Anglesey	2012-2014	2014-2015	2015-2016	2016-2017	2017-2018	Total
Created	347	37	99	19	14	516
Safeguarded	356	42	46	0	4	448
Assisted	88	0	0	0	0	88
Total	791	79	145	19	18	1052
Cardiff Airport & St Athan	2012-2014	2014-2015	2015-2016	2016-2017	2017-2018	Total
Created	9	7.6	64	57	2	139.6
Safeguarded	0	0	0	0	0	0
Assisted	85	0	0	0	7	92
Total	94	7.6	64	57	9	231.6
Cardiff Central	2012-2014	2014-2015	2015-2016	2016-2017	2017-2018	Total
Created	29	73	78.5	301	410	891.5
Safeguarded	51	13	6	3	13	86
Assisted	435	463.4	223	179	173	1473.4
Total	515	549.4	307.5	483	596	2450.9
Deeside	2012-2014	2014-2015	2015-2016	2016-2017	2017-2018	Total
Created	188	473.5	405.5	223	126	1416
Safeguarded	2484	490	176	230	29	3409
Assisted	591	0	379	374	35	1379
Total	3263	963.5	960.5	827	190	6204
Ebbw Vale	2012-2014	2014-2015	2015-2016	2016-2017	2017-2018	Total
Created	30	7.5	75	63	28.5	204
Safeguarded	61	0.5	9	0	31	101.5
Assisted	142	0	0	2	0	144
Total	233	8	84	65	59.5	449.5
Haven	2012-2014	2014-2015	2015-2016	2016-2017	2017-2018	Total
Created	14	49.5	123	169.5	60	416
Safeguarded	29	203.5	276	53	526	1087.5
Assisted	195	0	0	1	0	196
Total	238	253	399	223.5	586	1699.5
Port Talbot	2012-2014	2014-2015	2015-2016	2016-2017	2017-2018	Total
Created	0	0	0	49.5	92	141.5
Safeguarded	0	0	0	8	0	8
Assisted	0	0	0	0	0	0
Total	0	0	0	57.5	92	149.5
Snowdonia	2012-2014	2014-2015	2015-2016	2016-2017	2017-2018	Total
Created	6	0	0	0	0	6
Safeguarded	2	0	0	0	0	2
Assisted	0	0	0	12	0	12
Total	8	0	0	12	0	20
All zones	2012-2014	2014-2015	2015-2016	2016-2017	2017-2018	Total
Created	623	648.1	845	882	732.5	3730.6
Safeguarded	2983	749	513	294	603	5142
Assisted	1536	463.4	602	568	215	3384.4
Total	5142	1860.5	1960	1744	1550.5	12257

Ynys Môn
Creu
Diogelu
Cynorthwyo
Cyfanswm

Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan

Canol Caerdydd

Glannau Dyfrdwy

Glynebwy

Dyfrffordd y Ddau Gleddau

Port Talbot

Eryri

Pob ardal

Diffiniadau

Swyddi wedi'u creu – Nifer gros y swyddi a gafodd eu creu drwy gymorth uniongyrchol neu gymorth ariannol ac nad oeddent yn bodoli cyn y gweithgarwch.

Swyddi wedi'u diogelu – Nifer y swyddi cyflogedig cyfwerth ag amser llawn parhaol mewn busnes cleient a fyddai wedi'u colli ac sydd wedi'u diogelu drwy gymorth adran.

Swyddi wedi'u cynorthwyo – Nifer gros y swyddi a gafodd eu creu gan fusnesau sydd wedi derbyn mathau llai dwys o gymorth gan Lywodraeth Cymru.

Lefel y buddsoddiad cyhoeddus ar gyfer pob Ardal Fenter bob blwyddyn

Nodwch fod y ffigur buddsoddiad cyhoeddus yn cynnwys gwariant cyhoeddus nid yn unig ar fusnesau a gefnogwyd yn yr ardaloedd ond prosiectau seilwaith a thrafnidiaeth strategol sydd o fudd uniongyrchol i'r ardaloedd a'r cyffiniau.

	2012-2014	2014-2015	2015-2016	2016-2017	2017-2018	Total
Anglesey	£658,148.00	£1,427,247.00	£2,194,298.00	£2,115,425.26	£2,688,490.47	£9,083,608.73
Cardiff Airport & St Athan	£235,170.00	£2,887,033.00	£921,071.00	£9,759,970.82	£3,340,545.60	£17,143,790.42
Cardiff Central	£22,663,932.00	£6,426,884.00	£19,333,358.00	£13,571,141.25	£5,176,723.09	£67,172,038.34
Deeside	£16,631,844.00	£7,400,556.00	£3,270,591.00	£1,792,692.15	£2,736,596.11	£31,832,279.26
Ebbw Vale	£3,890,719.00	£4,651,081.00	£7,500,217.00	£78,530,621.77	£38,750,213.49	£133,322,852.26
Haven	£2,064,799.00	£1,927,000.00	£3,715,945.00	£1,610,720.04	£2,964,883.46	£12,283,347.50
Port Talbot	£0.00	£0.00	£0.00	£3,797,667.28	£1,778,928.74	£5,576,596.02
Snowdonia	£0.00	£1,016,431.00	£844,745.00	£500,112.61	£241,394.45	£2,602,683.06
Total	£46,144,612.00	£25,736,232.00	£37,780,225.00	£111,678,351.18	£57,677,775.41	£279,017,195.59

Cyfanswm

Ynys Môn

Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan

Canol Caerdydd

Glannau Dyfrdwy

Glynebwy

Dyfrffordd y Ddau Gleddau

Port Talbot

Eryri